CYFARFOD	**Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
DYDDIAD	**19eg o Fawrth 2013**
PWNC	**Gwe ddarlledu a mynychu cyfarfodydd o bell**
PWRPAS	**Cyflwyno gofynion y mesur a disgwyliadau y Gweinidol Llywodraeth Lleol mewn perthynas â gwe ddarlledu a mynychu cyfarfodydd o bell. Diweddariad ar sefyllfa grant i alluogi'r uchod.**
Awduron	**Cynghorydd Les Day, Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
	Geraint George Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

1. Cefndir:

1.1 Mae Mesur Llywodraeth Lleol (Cymru) 2011 yn ceisio hyrwyddo democratiaeth lleol a bod yn fwy cynhwysod wrth sicrhau mewnbwn ac ymrwymiad gan y Cyhoedd. Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Cymunedau, Carl Sargeant wedi nodi

"rwyf am i gymaint o bobl ag sy'n bosib gael mynediad i drafodion llywodraeth leol... mae hawl gan aelodau'r cyhoedd i deimlo y gallant allu gweld sut y mae penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau bob dydd yn cael eu gwneud".

1.2 Yn yr un modd, mae'r Gweinidog yn nodi fod Awdurdodau Lleol yn y sefyllfa orau i weithio gyda chynghorau cymuned a thref er mwyn sicrhau fod gan y cyhoedd fynediad at wybodaeth am waith a busnes y cynghorau hynny, a sut i gysylltu â hwy. Mae darpariaeth wedi ei wneud yn y Mesur Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) am yr uchod, sydd dan ystyriaeth gan y Cynulliad yn gyfredol.

1.3 Yn ychwanegol, mae Adran 4 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi'r gofyn i awdurdodau sicrhau fod aelodau etholedig yn gallu 'mynychu cyfarfodydd o bell' (remote attendance), hynny yw, nad oes rhaid i bob person (aelod) fod yn bresenol yn yr un ganolfan ar gyfer cynnal cyfarfod. Nid oes canllawiau penodol wedi eu cyhoeddi gan Lywodraeth y Cynulliad hyd yma ar sut yn union i gyflawni anghenion y ddeddf. Disgwylir i'r canllawiau fod ar gael yn fuan.

2. Datblygiadau Grant

2.1 Ddechrau'r flwyddyn cawsom wybod bod y Gweinidog dros Llywodraeth Leol am ddyrannu grantiau ar gyfer ymateb i'r elfennau a nodir yn 1 uchod.

Ar yr 21ain o Chwefror cawsom gopi o gytundeb grant gyda chyfarwyddyd i'w

arwyddo a'i anfon nol erbyn 7 o Fawrth. Mae hwnnw'n datgan y bydd hyd at £72,000 ar gael i Gyngor Gwynedd :

a. £42,000 ar gyfer darlledu cyfarfodydd y Cyngor a chaniatáu i aelodau ymuno á chyfarfodydd "o bell";
b. £30,000 ar gyfer dyrannu grant o hyd at £500 yr un i gynghorau cymuned y sir i sefydlu eu gwefannau eu hunain.

2.2 Drwy dderbyn y grant bydd Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i :

Wneud beth	**Erbyn pryd**	**Tystiolaeth**
I ddarlledu yr oll/neu rai o gyfarfodydd y Cyngor	31 Mawrth 2014	Presenoldeb darllediadau ar wefan y Cyngor
Darparu cyllid i gynghorau cymuned i'w cefnogi i ddatblygu eu gwefannau	31 Mawrth 2014	Nifer o gynghorau cymuned sydd a gwefan
Trefnu i aelodau ymuno á chyfarfodydd "o bell"	31 Mawrth 2014	Adroddiad ysgrifenedig yn nodi sawl cyfarfod o'r fath gynhaliwyd a llwyddiant yr ymarferiad

2.3 Ar yr olwg gyntaf mae'r grant ar gyfer gwariant am y cyfnod 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2013 ac yn gorfod cael ei hawlio yn llawn erbyn y 31 Mawrth 2013. Fodd bynnag, mae darpariaeth ar gyfer trosglwyddo'r gwariant i 2013/14.

2.4 Gan fod yr amserlen ar gyfer ymateb i gyflwyno cais am grant wedi bod yn hynod dynn, cytunwyd y dylid derbyn y grant am y tro, gyda gwaith pellach i'w gynnal yn nfewnol ynghylch sut y gellir darlledu cyfarfodydd y Cyngor dros y we.

3 Y sefyllfa gyfredol yng Ngwynedd

Gwe ddarlledu.

3.1 Mae Gwynedd mewn sefyllfa hynod fanteisiol gan fod yr isadeiledd ar gyfer darlledu cyfarfodydd fel hyn wedi ei fewnosod yn Siambr Dafydd Orwig yn ystod yr wythnosau diwethaf ac yn rhan o brosiect Siambr Hywel Dda. Mae'r Cyngor yn ystyried anelu i fod yn gallu defnyddio peth o'r grant i gyfrannu at y costau yma.

3.2 O ran lleoliadau bydd darpariaeth mewn lle ar gyfer gallu darlledu o Siambrau Dafydd Orwig a Hywel Dda, a chaniatáu i aelodau ymuno á chyfarfodydd yn y siambrau yma o'r stafelloedd fideo gynhadledd yn Nolgellau a Phwllheli.

3.3 Er mwyn gallu darlledu yn effeithiol a dwyieithog, mae'n ymddangos ar hyn o bryd y bydd angen prynu gwasanaeth golygu/darlledu. Mae yna ychydig o gwmnïau annibynnol yn darparu'r gwasanaeth yma ac un cwmni'n arbennig yn gweithredu yn y farchnad yng Nghymru. Rydym wedi derbyn dyfynbris ganddynt sy'n datgan cost o £32,000 am gytundeb i fod yn darlledu cyfarfodydd am ddwy flynedd. Rydym yn parhau i ymchwilio i'r dull gorau, a mwyaf cost effeithiol o fod yn darlledu, gan weithio ar y cyd a chynghorau eraill ac yn ceisio arweiniad gan Lywodraeth Cymru o ran beth sy'n ddisgwyliedig. Ymddengys y bydd yn rhaid prynu'r math yma o wasanaeth er mwyn darlledu yn ddwyieithog. Tra gellid defnyddio'r grant i dalu am hwn am gyfnod o ddwy flynedd byddai angen i'r Cyngor wedyn ystyried gwneud darpariaeth os am barhau hefo'r gwasanaeth wedi hynny.

<u>Cynghorau Cymuned – datblygu gwefannau</u>.

3.4 Ail elfen y grant yw dyraniad o hyd at £500 ar gyfer pob Cyngor Cymuned ar gyfer darparu gwefannau. Y disgwyl ydy i Gyngor Gwynedd fod yn ei wneud ydi gweinyddu'r grant yma ar gyfer y Cynghorau Cymuned o fewn y Sir. Rydym yn trafod yr elfen yma gyda'r Adran Economi Adfywio gyda'r nod o fod yn ymgymryd â'r gwaith yma.

4 Argymhellion

4.1 Argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn caniatau i swyddogion wneud ymchwil pellach ar y gwaith sydd ynghlwm â gofynion y Mesur pan ddaw'r canllawiau llawn, a'r posibiliadau o ran defnyddio'r arian grant. Gofynnir i'r swyddogion perthnasol drafod y mater gyda Chadeirydd y Pwyllgor ac adrodd yn ol i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ym Mehefin 2013.